Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Polisi amgylcheddol corfforaethol

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

DVLA011W
1/22

## Datganiad polisi

Mae DVLA wedi ymrwymo i warchod yr amgylchedd, atal llygredd ac i barhau i wella ein perfformiad amgylcheddol.

## Disgrifiad

Mae gweithgareddau gweithredol y DVLA a gweithgaredd unigol ei staff yn effeithio ar yr amgylchedd. Nod y polisi hwn yw dweud wrth ein partïon sydd â diddordeb gan gynnwys staff, contractwyr, cyflenwyr a'r cyhoedd bod DVLA wedi ymrwymo i leihau unrhyw effeithiau amgylcheddol negyddol a gynhyrchir gan ein gweithgareddau, ein cynnyrch, a'n gwasanaethau.

Ein polisi yw gwella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus drwy:

- weithio tuag at Net Sero erbyn 2050 drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'n hystad a theithio
- lleihau gwastraff wrth wneud y mwyaf o'n cyfleoedd ailgylchu ac ailddefnyddio
- lleihau faint o bapur a ddefnyddiwn
- monitro a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddiwn
- sicrhau bod ein dulliau caffael yn ystyried cynaliadwyedd
- diogelu a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau ein hystad
- datblygu strategaeth addasu i newid yn yr hinsawdd i liniaru unrhyw risgiau a nodir
- sicrhau dull gweithredu mwy cynaliadwy yn gyffredinol at ein defnydd o offer TG a gwasanaethau digidol

## Cyflwyno a monitro

Byddwn yn:

- cyflawni ein rhwymedigaethau cydymffurfio mewn perthynas â’r amgylchedd
- bodloni neu ragori ar delerau polisi’r llywodraeth ar yr amgylchedd
- gwella ein system rheoli amgylcheddol yn barhaus i wella ein perfformiad amgylcheddol
- gweithio tuag at gyflawni ein hymrwymiadau i wneud y llywodraeth yn fwy gwyrdd i ddiogelu’r amgylchedd lleol ac ehangach
- coladu, monitro a dadansoddi data i fesur perfformiad yn erbyn ein targedau a’n hamcanion
- paratoi ar gyfer newidiadau polisi a thargedau llymach
- annog staff, contractwyr a chyflenwyr i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd wrth ddarparu gwasanaethau a chynhyrchion i ni ac o fewn eu sefydliadau eu hunain
- cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar gyfer y tîm gweithredol a’r uwch reolwyr
- cynhyrchu adroddiadau interim cywir ar ddymuniad sy’n hawdd eu deall
- gwneud yn siŵr bod ein cynlluniau ymateb brys ar gyfer digwyddiadau mawr yn ystyried yr holl effeithiau amgylcheddol arwyddocaol

Er fy mod, fel Prif Weithredwr, yn gyfrifol am berfformiad amgylcheddol y DVLA, rwy’n disgwyl i’r holl staff, contractwyr a chyflenwyr sy’n ymwneud â busnes y DVLA i rannu’r cyfrifoldeb hwn.

Perchennog polisi: **Julie Lennard**

Enw’r dechreuwr: **Andrew Lees**

Dyddiad yr adolygiad diwethaf: **Tachwedd 2021**

Dyddiad yr adolygiad nesaf: **Ebrill 2025**

**Polisi amgylcheddol corfforaethol**

DVLA
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL

gov.uk/dvla